

2016 Rhif 842 (Cy. 212)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Clydach, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Chwith ac i'r Dde Dros Dro) 2016

Gwnaed 11 Awst 2016

Yn dod i rym 12 Awst 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – y Fenni (yr A465) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd rhag troi i'r chwith neu i'r dde oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Awst 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Clydach, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Chwith ac i'r Dde Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 12 Awst 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 yng Nghlydach, yn Sir Fynwy, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde neu i'r chwith ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato'n weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Awst 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

DARNAU O GEFNFFORDD YR A465 YNG NGHLYDACH, SIR FYNWY

ATODLEN 1

GWAHARDD TROI I'R DDE DROS DRO WRTH Y BRIF FFORDD

Troi i'r dde o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd ar draws cerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd i gael mynediad at y Brif Ffordd.

Troi i'r dde o'r Brif Ffordd ar draws cerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd i gael mynediad at gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

ATODLEN 2

GWAHARDD TROI I'R CHWITH AC I'R DDE DROS DRO WRTH STATION ROAD

Troi i'r chwith o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd i gael mynediad at Station Road.

Troi i'r chwith i gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd o Station Road.

Troi i'r dde o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd ar draws cerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd i gael mynediad at Station Road.

Troi i'r dde o Station Road ar draws cerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd i gael mynediad at gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd.